S4C / Cylch Gorchwyl
# Y Pwyllgor Cynnwys
Cymeradwywyd: Rhagfyr 2025 (Adolygwyd: Rhagfyr 2025; Adolygiad nesaf: Rhagfyr 2027)

**Pwrpas**

Mae'r Pwyllgor Cynnwys yn gyfrifol am graffu ar, a chynnig mewnbwn strategol i weithgareddau i gyflawni is-strategaethau cynnwys a digidol S4C. Mae'n atebol i Fwrdd S4C.

Bydd y Pwyllgor yn cynnal trosolwg, yn craffu ar ddatblygiadau, ac yn cynnig mewnbwn ar ran Bwrdd, gan barchu annibyniaeth golygyddol a chyfrifoldebau gweithredol y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arwain.

**Aelodaeth a Phresenoldeb Eraill**

Aelodau (6 aelod)

- Aelod Anweithredol, o blith aelodau'r Bwrdd (i gadeirio)
- 2 Aelod Anweithredol
- Y Prif Swyddog Cynnwys
- Pennaeth Gweithrediadau Cynnwys
- Pennaeth Ffrydio a Digidol

Cworwm: 3 aelod, gydag o leiaf dau Aelod Anweithredol yn bresennol.

Penodir aelodau'r Pwyllgor gan y Bwrdd, yn unol â'r aelodaeth uchod.

Gellir cyfethol aelodau anweithredol nad ydynt yn gwasanaethu ar y Bwrdd lle bod hynny'n ddymunol er mwyn sicrhau cydbwysedd sgiliau addas ymhlith aelodaeth y Pwyllgor.

Mynychwyr nad ydynt yn aelodau

- Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata
- Pennaeth Cynllunio a Rheoli Cynnwys
- Pennaeth Ymchwil
- Ysgrifennydd y Bwrdd

Bydd Cadeirydd y Bwrdd a'r Prif Weithredwr yn rhydd i fynychu cyfarfodydd, ond ni fyddant yn aelodau o'r Pwyllgor at ddibenion y cworwm, na

Ar gais yr Ysgrifennydd, gall Cadeirydd y Pwyllgor ganiatáu i aelodau staff S4C ac unrhyw berson arall fynychu cyfarfodydd o'r Bwrdd fel bo'n briodol.

**Cylch Gorchwyl**

1. Ystyried materion strategol sy'n ymwneud â chynnwys S4C ar draws pob llwyfan, a chytuno ar argymhellion fel bo'n briodol i'r Bwrdd, neu i'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arwain (UDA).

2. Craffu ar y canlynol, a chytuno ar argymhellion priodol i'r Bwrdd:
   i. Datblygiad is-strategaethau Cynnwys a Digidol S4C, ac unrhyw ddiwygiadau i'r is-strategaethau hynny;
   ii. Cynllun Rhaglenni Blynyddol y BBC (yn unol ag Adran 58, Deddf Darlledu 1990); a
   iii. Diwygiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor.

3. Derbyn adroddiadau er gwybodaeth, a chynghori'r Bwrdd a / neu'r Prif Weithredwr a'r UDA fel bo'n briodol, ar:
   i. Gynnydd wrth weithredu'r is-strategaethau Cynnwys a Digidol ac unrhyw gynlluniau cyflawni / gweithredu cysylltiedig;
   ii. Perfformiad yn erbyn y mesuryddion cynnwys a digidol a gytunwyd arnynt, gan gynnwys craffu mewn mwy o ddyfnder na'r Bwrdd ar dueddiadau;
   iii. Adroddiadau ar berfformiad cynnwys diweddar ar draws pob llwyfan (llinol, digidol, cymdeithasol), gan gynnwys data ar gyrhaeddiad fesul demograffeg, ac ymchwil cynulleidfaoedd.
   iv. Dashfwrdd Cyllideb Cynnwys S4C;
   v. Cod Ymarfer Comisiynu S4C, a Chanllawiau Comisiynu S4C, sut y cant eu gweithredu ac unrhyw ddiwygiadau perthnasol; ac
   vi. Adolygu'r ystod ac amrywiaeth o gynnwys a ddarperir gan S4C yn gyson yng ngoleuni tueddiadau newydd, cyfleoedd newydd a newidiadau yn y galw am wasanaethau.

4. Craffu ar berfformiad sampl o gyfresi neu raglenni unigol, i asesu i ba raddau maent yn cyfrannu at wireddu Strategaeth 2030 a'r is-strategaethau cynnwys a digidol.

5. Cynnig arweiniad strategol i'r weithrediaeth ar gydbwysedd, cysondeb a chyfeiriad y llechen gynnwys er mwyn sicrhau bod y gwaith cynllunio'n adlewyrchu'r cyfeiriad strategol a gymeradwywyd gan y Bwrdd.

**Pwerau'r Pwyllgor**

Gall y Pwyllgor:

- ymchwilio i unrhyw weithgaredd o fewn ei gylch gorchwyl;
- comisiynu cyngor arbenigol neu ymchwil at ddiben y Pwyllgor yn ôl yr angen (trwy'r Ysgrifennydd, yn amodol ar drefniadau cyllidebol arferol);
- ceisio unrhyw wybodaeth sydd ei hangen gan unrhyw aelod o'r staff, a chyfarwyddir pob aelod o'r staff i gydweithredu ag unrhyw gais a wneir gan y Pwyllgor.

Er y gall y Cadeirydd gynnig arweiniad a chynghori ar y mathau o faterion y dylid eu cyflwyno'n ffurfiol i'r Pwyllgor, ynghyd â'r amser gorau i wneud hynny, a natur y wybodaeth sy'n briodol i'w chyflwyno i'r Pwyllgor, ni all y Cadeirydd gymryd unrhyw benderfyniadau ffurfiol ar ran y Pwyllgor oni bai bod y Pwyllgor wedi cytuno i ddirprwyo'r penderfyniad iddynt o flaen llaw.

**Trefniadau Cyfarfodydd**

Cynhelir y cyfarfodydd pedair gwaith y flwyddyn, ac yna yn ôl y galw (ar gais yr Ysgrifennydd, Cadeirydd y Pwyllgor, neu Gadeirydd y Bwrdd).

Gall y Pwyllgor ystyried a chymeradwyo materion drwy gyfathrebu y tu hwnt i gyfarfod ffurfiol, cyhyd â bod cofnod llawn o'r penderfyniad yn cael ei gadw a bod unrhyw benderfyniad a wneir y tu hwnt i gyfarfod ffurfiol yn cael ei adrodd i'r cyfarfod ffurfiol nesaf er mwyn iddo gael ei gofnodi.

Gofynnir i unigolion adael y cyfarfod pan fo gwrthdaro buddiannau yn codi (y Pwyllgor fydd â'r gair olaf mewn unrhyw achos o wrthdaro).

Bydd yr Ysgrifennydd, neu fel arall, berson cymwys a benodir gan yr Ysgrifennydd, yn cofnodi'r cyfarfod.

Bydd cofnodion a / neu adroddiadau gan y Pwyllgor yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd cyn gynted â phosib yn dilyn cyfarfodydd y Pwyllgor.

**Cyfrifoldebau mewn perthynas â chynnwys S4C**

Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, disgwylir i Fwrdd S4C, a'r Pwyllgor Cynnwys, ystyried cynnwys gwasanaethau S4C o bersbectif strategol – nid oes gan y cyrff unrhyw allu i gymryd penderfyniadau neu ddarparu cyfarwyddiadau sy'n ymwneud â materion golygyddol neu gomisiynu dydd-i-ddydd:

> *"Fel egwyddor gyffredinol, ac yn amodol ar y darpariaethau statudol perthnasol a'r Rheolau Sefydlog, mae'r Bwrdd yn dirprwyo cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus S4C, gan gynnwys materion golygyddol a chomisiynu, a rheoli o ddydd i ddydd, i Brif Weithredwr S4C a'r Uwch Dîm Arwain. Mae Uwch Dîm Arwain S4C yn atebol i Fwrdd S4C drwy'r Prif Weithredwr, ac mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb i lywio ac i oruchwylio cyfeiriad strategol y Sianel. Mae'r arfer hwn wedi bodoli ers 1982, ac mae'n parhau i gynnal a sicrhau annibyniaeth y Bwrdd rhag ymwneud gyda penderfyniadau gweithredol ynglŷn â chynnwys gwasanaethau S4C".*

Yn amodol ar y darpariaethau uchod, bydd gweithgareddau'r Pwyllgor yn cael eu rheoli gan Reolau Sefydlog y Bwrdd, i'r graddau eu bod yn berthnasol.